

Gwerthusiad o wasanaeth Cymru'n Gweithio: Adroddiad 1

Y Theori Newid, Effaith COVID-19, a'r Fframwaith Gwerthuso

Crynodeb

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae Cymru'n Gweithio yn wasanaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi'i gynllunio i gynnig cymorth ar gyflogadwyedd sy'n llyfn, yn effeithlon ac sy'n ymateb i anghenion yr unigolyn. Fe'i cyflwynwyd yn 2019 ac mae'n ffordd newydd o gynnig cyngor diduedd ar gyflogadwyedd a gyrfaedd, yn rhad ac am ddim, ledled Cymru, gan gael ei ddarparu gan Gyrfa Cymru ar ran Llywodraeth Cymru.
- 1.2 Mae'r gwerthuso ar wasanaeth Cymru'n Gweithio yn cwmpasu'r cyfnod o fis Ebrill 2019 hyd at fis Ebrill 2022. Prif swyddogaeth yr adroddiad cyntaf hwn yw cyflwyno theori newid ar gyfer y gwasanaeth ac, ar sail y theori honno, cyflwyno'r fframwaith ar gyfer camau nesaf y gwerthusiad. Ymhellach, mae'n adrodd ar ganfyddiadau cam cwmpasu'r gwerthusiad, yn adolygu gwybodaeth reoli'r gwasanaeth, ac yn adolygu'r effaith a gafodd pandemig COVID-19 ar ddarparu'r gwasanaeth yn 2020. Cyflwynir hefyd 10 astudiaeth achos o ddefnyddwyr gwasanaeth Cymru'n Gweithio, gan archwilio'r gefnogaeth a gawsant a'r budd iddynt.

Y gwasanaeth

- 1.3 Mae Cymru'n Gweithio yn cynnig pwynt mynediad ledled Cymru gyfan i bobl gael cymorth â chyflogadwyedd. Mae'n galluogi unigolion i siarad â chynghorwyr hyfforddedig am gyflogaeth a sgiliau, eu hamcanion a'u dyheadau, ac unrhyw heriau y maent yn eu hwynebu i gael gwaith, addysg neu hyfforddiant ac i aros yn y rhain. Rhoddir cyngor ac arweiniad wyneb yn wyneb yn swyddfeydd Gyrfa Cymru (er bod pandemig COVID-19 wedi effeithio ar hyn, fel y trafodir yn yr adroddiad hwn), Canolfannau Gwaith Lleol, a lleoliadau allgymorth cymunedol eraill, dros y ffôn ac ar-lein.

Diben y gwerthusiad a'r fethodoleg

- 1.4 Mae'r gwerthusiad yn archwilio effeithiolrwydd, effeithlonrwydd ac effaith Cymru'n Gweithio yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2019 ac Ebrill 2022. Bydd y ffocws ar berfformiad ac effaith y gwasanaeth, ynghyd ag adolygu prosesau cynllunio a darparu'r gwasanaeth.
- 1.5 Roedd yr ymchwiler a wnaed ar gyfer yr adroddiad hwn yn cynnwys 30 o gyfweiliadau cwmpasu gydag aelodau allweddol o dîm Cymru'n Gweithio, swyddogion Llywodraeth Cymru, ac amrywiaeth o sefydliadau partner sy'n gweithio yn y maes cyflogadwydd yng Nghymru (gan gynnwys Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru [NTFW], sawl awdurdod lleol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru [WCVA], yr Adran Gwaith a Phensiynau [DWP], a Chyngres yr Undebau Llafur [TUC]).
- 1.6 Cynhaliwyd dau weithdy gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i lywio'r gwaith o ddatblygu theori newid ar gyfer Cymru'n Gweithio, gydag wyth ohonynt yn cymryd rhan yn y gweithdy cyntaf a 12 yn yr ail. Cynhaliwyd y gweithdai hyn ar-lein oherwydd y cyfyngiadau a oedd ar waith o ganlyniad i bandemig COVID-19.
- 1.7 Roedd adolygu effaith COVID-19 ar wasanaeth Cymru'n Gweithio wedi cynnwys cyfweiliadau dros y ffôn gyda 18 aelod o'r tîm rheoli a holiadur ar-lein i staff y rheng flaen y derbyniwyd 96 o ymatebion iddo (sef cyfradd ymateb ychydig yn is na 50%). Cynhaliwyd y rhain yn ystod mis Hydref 2020 (cyn y cyfnod atal byr).
- 1.8 Newid pwysig i'r dull gweithredu arfaethedig o ganlyniad i bandemig COVID-19 oedd peidio ag ymgynghori'n helaeth â chwsmeriaid gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn ystod cam hwn y gwerthusiad. Roedd yr ymgynghori hwn wedi'i gynllunio er mwyn archwilio'r gwasanaeth o safbwynt y cwsmeriaid, ond penderfynwyd na fyddai'n briodol cynnal gwaith maes helaeth gyda chwsmeriaid yn ystod y pandemig gan y byddai'r cyfyngiadau a oedd ar waith yn debygol o ddylanwadu'n fawr ar yr atebion i gwestiynau. Roedd gohirio'r ymgynghori â chwsmeriaid (a fydd bellach yn rhan allweddol o gam nesaf y gwerthusiad) hefyd wedi rhoi modd rhyddhau adnoddau ar gyfer cynnal adolygiad o effaith COVID-19 ar wasanaeth Cymru'n Gweithio, fel y soniwyd uchod.
- 1.9 Er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg cyswllt â chwsmeriaid, penderfynwyd llunio cyfres o astudiaethau achos ar ddiwedd 2020, gan gynnwys y rhain yn nechrau 2021. Roedd hyn yn cynnwys datblygu 10 astudiaeth achos fanwl gydag unigolion sydd wedi ymwneud â Cymru'n Gweithio ar ryw adeg yn ystod y 12 mis diwethaf.


2. Prif Ganfyddiadau Adroddiad 1

Theori newid

- 2.1 Mae theori newid yn esbonio sut y disgwylir i ymyriad weithio, gan ddechrau gyda'r mewnbynnau, ac yna'r allbynnau (y gweithgareddau a gyflawnir), y canlyniadau sy'n digwydd yn syth (o ganlyniad i'r gweithgareddau), ac, yn olaf, effaith tymor hwy yr ymyriad. Wrth ddatblygu theori newid ar gyfer Cymru'n Gweithio gwelwyd bod y rhesymeg gyffredinol dros y gwasanaeth yn syml (gweler Ffigur 1), ond bod

cymhlethdod y rhwystrau y mae angen i rai unigolion eu goresgyn yn ychwanegu haen o gymhlethdod at y broses werthuso.

Ffigur 1: Rhesymeg ganolog theori newid Cymru'n Gweithio



- 2.2 Mae model llawn y theori newid ar gyfer y gwasanaeth i'w weld yn Atodiad 1.
- 2.3 Prif allbwn (h.y. gweithgareddau) y gwasanaeth yw nifer y cwsmeriaid sy'n cymryd rhan ac yna'n cael eu cefnogi. Mae gennym ddiddordeb hefyd yn nodweddion y cwsmeriaid hynny er mwyn deall y grwpiau pobl sy'n cael eu cefnogi, neu beidio, gan y gwasanaeth. Yn ogystal, mae diddordeb yn y math o gymorth sy'n cael ei gynnig er mwyn gallu deall pa fath o gymorth sydd fwyaf effeithiol. Fodd bynnag, yr hyn sy'n bwysicach i'r gwerthusiad, o bosibl, yw'r canlyniadau – sef yr hyn sy'n digwydd o ganlyniad i'r gweithgareddau a gynhelir.
- 2.4 Nodwyd dau fath o ganlyniadau yn y theori newid: canlyniadau rheoli'r gwasanaeth, a chanlyniadau i'r unigolion sy'n cael eu cefnogi. Bydd yn bwysig i'r gwerthusiad archwilio'r ddau fath, a'r ddau, felly, i'w gweld yn y fframwaith gwerthuso sydd yn y prif adroddiad.
- 2.5 Mae canlyniadau rheoli'r gwasanaeth yn feintiol — (a) nifer yr atgyfeiriadau/cyfeirio at gymorth dilynol, a (b) nifer yr unigolion sy'n cael eu hatgyfeirio (gan adlewyrchu'r ffaith y gellir cyfeirio unigolion fwy nag unwaith neu at fwy nag un gwasanaeth). Serch hynny, pwysig hefyd o safbwynt y gwerthuso yw 'ansawdd' y canlyniadau hyn. A yw unigolion yn cael eu hatgyfeirio at y cymorth mwyaf priodol/effeithiol i fynd i'r afael â'u hanghenion penodol/neilltuol hwy? Bydd hyn yn heriol i'w werthuso ond mae'n bwysig iawn gan ei fod wrth wraidd y rhesymeg dros wasanaeth Cymru'n Gweithio.
- 2.6 Mae'r canlyniadau i unigolion a gefnogir gan Cymru'n Gweithio yn codi yn sgil y gwell gwybodaeth a dealltwriaeth y dylai fod gan yr unigolion (ar ôl ymgysylltu â Cymru'n Gweithio) am eu potensial/galluoedd personol (cryfderau, gwendidau, etc.) a hefyd am gyfleoedd mewn perthynas â'r canlynol: (a) y farchnad lafur/swyddi, (b) hyfforddiant/cymorth datblygiad personol y gallant gael mynediad iddo, a (c) goresgyn rhwystrau a allai fod yn atal eu cyfleoedd cyflogaeth. Awgryma cyfweiliadau cwrmpasu y dylai hyn arwain at ganlyniadau cadarnhaol o ran cymhelliant personol yr unigolyn ac/neu ei hunanhyder, pethau yr ydym wedi cyfeirio atynt yn aml fel

'canlyniadau meddal'. Bydd y gwerthusiad yn ymgysylltu ag unigolion a gefnogwyd gan Cymru'n Gweithio er mwyn ystyried a oes tystiolaeth o greu'r canlyniadau hyn.

- 2.7 Cam olaf y theori newid yw effaith y gwasanaeth. Dylai Cymru'n Gweithio gyfrannu at gyflawni polisïau allweddol Llywodraeth Cymru yn ymwneud â chyflogadwyedd a datblygu economaidd. Mae'n amlwg na all y gwasanaeth gyflawni effeithiau o'r fath ar ei ben ei hun – mae dibyniaeth ar y cymorth hyfforddi a datblygu y bydd Cymru'n Gweithio yn cyfeirio ei gwsmeriaid atynt. Swyddogaeth Cymru'n Gweithio yw nodi anghenion unigolion, ond nid yw'n darparu'r cymorth sydd ei angen er mwyn mynd i'r afael â'r anghenion hynny. Dyma'r rhagdybiaeth allweddol yn theori newid i Cymru'n Gweithio – bod y cymorth y cyfeirir unigolion ato ar gael ac yn effeithiol. Mae hwn yn bwynt pwysig wrth ystyried sut y dylid barnu llwyddiant Cymru'n Gweithio.

Gwybodaeth ynghylch rheoli'r gwasanaeth

- 2.8 Mae dadansoddi'r wybodaeth reoli ar gyfer yr adroddiad hwn yn cwmpasu Blwyddyn 1 gyfan y gwasanaeth (Ebrill 2019 hyd at Fawrth 2020) ac yn cynnwys Blwyddyn 2 hyd at ddiwedd Rhagfyr 2020. Canfu'r dadansoddiad fod y galw am gymorth Cymru'n Gweithio wedi bod yn gryf, gyda'r gwasanaeth bob mis yn ymgysylltu'n rheolaidd â mwy na 2,000 o gwsmeriaid newydd sy'n oedolion, ac wedi atgyfeirio/cyfeirio bron i 30,000 o gwsmeriaid (oedolion ac ieuenctid) yn ei flwyddyn gyntaf o weithredu. At hynny, roedd y flwyddyn gyntaf honno wedi cynnwys mwy na 37,000 o gyfweiliadau wyneb yn wyneb a bron i 4,000 wedi cymryd rhan mewn sesiynau grŵp i gwsmeriaid, yn ogystal â niferoedd sylweddol yn rhyngweithio ar y ffôn a thrwy'r gwasanaeth ar-lein. Fodd bynnag, mae'r ffigurau ar gyfer Blwyddyn 2 yn amlygu effaith y cyfyngiadau o ganlyniad i bandemig COVID-19.

Effaith pandemig COVID-19 ar ddarparu'r gwasanaeth

- 2.9 Cafodd pandemig COVID-19 effaith enfawr ar y rhan fwyaf o bethau yn ystod 2020, gan gynnwys Cymru'n Gweithio. Canfu ymchwil sylfaenol gyda tîm Cymru'n Gweithio ar gyfer yr adroddiad hwn mai cadarnhaol yw'r farn gyffredinol gan Gyrrfa Cymru a Llywodraeth Cymru ar sut yr oedd y gwasanaeth wedi ymdopi â'r cyfyngiadau a roddwyd ar waith o ganlyniad i'r pandemig. Er bod gwasanaethau wedi cael eu cynnal mewn ffordd wahanol, eto roeddynt wedi parhau ac wedi bod yn effeithiol. Yn ogystal, cyflwynwyd nifer o wasanaethau newydd, a thrwy hynny wella gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn ystod y pandemig. Yn ddealladwy, cafwyd rhywfaint o effaith ar ansawdd y gwasanaethau oherwydd, yn benodol, y diffyg cymorth wyneb yn wyneb o ganlyniad i gau'r canolfannau gyrfaoedd a pheidio cynnal unrhyw weithgareddau allgymorth. Fel y dengys y dadansoddi ar yr wybodaeth reoli, roedd y rhain yn nodweddion allweddol y gwasanaeth ym mlwyddyn gyntaf ei weithredu.
- 2.10 Yn bwysig iawn, soniodd tîm Cymru'n Gweithio am effeithiau cadarnhaol. Yn fwyaf nodedig, ystyriwyd bod darparu cymorth dros y ffôn/fideo wedi gwella mynediad at y gwasanaeth mewn rhai achosion; wrth symud ymlaen, y farn a fynegwyd oedd y dylid cadw'r dull hwn, ochr yn ochr ag ailgyflwyno'r cymorth wyneb yn wyneb a gynigir. Dyma enghraifft o sut y gall amgylchiadau heriol arwain at arloesi a newid cadarnhaol yn y modd y caiff gwasanaeth ei gynnal.

- 2.11 Fodd bynnag, mae'n bwysig peidio ag anwybyddu effaith y pandemig ar ddarparu'r gwasanaethau y byddai Cymru'n Gweithio fel arfer yn atgyfeirio/cyfeirio unigolion atynt ac y rhai a fyddai'n atgyfeirio cwsmeriaid i Cymru'n Gweithio. Mae'r gwasanaethau hynny, er enghraifft, wedi symud i fodel cyflenwi ar-lein ac/neu wedi lleihau lefel y cymorth y gallant ei gynnig o ganlyniad i'r cyfyngiadau. Mae gan hyn oblygiadau amlwg i Cymru'n Gweithio o ran ei allu i dderbyn atgyfeiriadau yn effeithiol a gwneud atgyfeiriadau ei hun maes o law, ac, wedyn, ar ei allu i sicrhau'r effaith sylfaenol y cynlluniwyd y gwasanaeth i gyfrannu ato (fel y nodwyd yn y theori newid). Newidiodd yr 'ecosystem' y mae Cymru'n Gweithio ynddi hefyd yn ddramatig yn ystod 2020 yn sgil Llywodraethau'r DU a Chymru yn cyflwyno cymorth newydd mewn ymateb i effaith COVID-19. Bydd y newidiadau hyn hefyd yn cael effaith ar sut mae Cymru'n Gweithio yn gweithredu.
- 2.12 Mae ymwybyddiaeth ymhlith tîm Cymru'n Gweithio ei bod yn debygol y bydd cynnydd yn y galw am gymorth yn ddiweddarach pan ddaw ymyriadau fel y cynlluniau ffyrlo i ben a phan fydd pobl sydd, am y tro, wedi 'gohirio' meddwl am eu gyrfa yn penderfynu ailymgysylltu. Yn wir, mae cynlluniau ar waith i ddelio â sefyllfa o'r fath, a darparwyd adnoddau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae'n glir y bydd cynnydd sylweddol tebygol yn y galw am gymorth o ganlyniad i effaith economaidd y pandemig (yn benodol cynnydd mewn dileu swyddi) a'r pwysau tebygol ar y gwasanaeth am gymorth yn ystod y misoedd nesaf; roedd hyn wedi arwain at rai staff yn mynegi pryder ynghylch gallu'r gwasanaeth i fynd i'r afael yn effeithiol â chynnydd o'r fath yn y galw. Cymerwyd camau i baratoi ar gyfer hyn, gan gynnwys Llywodraeth Cymru yn darparu cyllideb ychwanegol. Mae hyn yn rhywbeth a gaiff ei adolygu wrth i'r gwerthusiad symud ymlaen i'r cam nesaf.

Astudiaethau achos cwsmeriaid

- 2.13 Mae'r 10 astudiaeth achos o unigolion a gefnogir gan Cymru'n Gweithio yn adlewyrchiad cadarnhaol o sut y caiff y gwasanaeth ei ddarparu a'r canlyniadau cadarnhaol y gall esgor arnynt ar gyfer yr unigolion dan sylw. Dengys yr astudiaethau achos yr ystod eang o faterion y mae gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn helpu unigolion â hwy. Yn bwysig, maent hefyd yn dangos bod y materion hynny'n aml yn ehangach na'r hyn y gellir ei ystyried yn draddodiadol yn faterion 'cyflogaeth'. Un canfyddiad allweddol yw bod Cymru'n Gweithio yn llawer mwy na dim ond gwasanaeth 'dadansoddi anghenion ac atgyfeirio', a'i fod yn cefnogi unigolion sydd, ar adegau, mewn cyfnodau anodd iawn yn eu bywydau.
- 2.14 Nodwyd bod y 'positifrwydd' a'r 'sicrwydd' a gâi unigolion gan dîm Cymru'n Gweithio yn bwysig iawn, felly hefyd yr 'elfen bersonol'. Felly, mae'r modd y darperir y gwasanaeth/cymorth yr un mor bwysig mewn gwirionedd â'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r rhain yn faterion y bydd y gwerthusiad yn parhau i'w harchwilio gydag ystod ehangach o gwsmeriaid wrth i'r gwerthusiad fynd rhagddo.

3. Beth nesaf i'r gwerthusiad?

- 3.1 Mae'r fframwaith a gyflwynir yn y prif adroddiad yn rhoi'r sylfaen ar gyfer camau canlynol y gwerthusiad. Bydd ymchwil a wneir fel rhan o'r cam nesaf yn cynnwys ymgynghori â'r canlynol:

- Unigolion sy'n cael eu cefnogi gan y gwasanaeth
- Y timau rheoli a chyflenwi
- Rhanddeiliaid a sefydliadau partner

Atodiad 1: Theori newid linol ar gyfer Cymru'n Gweithio

	O fewn rheolaeth Cymru'n Gweithio		Y tu hwnt i reolaeth Cymru'n Gweithio	
Mewnbynnau →	Allbynnau (gweithgareddau) →	Canlyniadau A →	Canlyniadau B →	Effeithiau
- Y gyllideb a roddwyd i Gyrfa Cymru i gynnal gwasanaeth Cymru'n Gweithio + y dyraniad i'r gwasanaeth o gyllideb graidd Gyrfa Cymru - Mewnbwn swyddogion Llywodraeth Cymru o ran polisi a rheolaeth - Atgyfeiriadau rhanddeiliaid a phartneriaid allanol i'r gwasanaeth (e.e. DWP)	- Nifer yr unigolion a gefnogir - Ystod eang o unigolion wedi ymgysylltu â'r cymorth – sy'n dangos bod rhwystrau wedi'u dileu - Nifer a ffynhonnell yr atgyfeiriadau/cyfeirio - Ystod y gweithgareddau a gynhelir/cymorth a ddarperir - Gweithgareddau allgymorth - Gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid - Gweithgareddau marchnata a hyrwyddo?	<i>I'r gwasanaeth:</i> - Nifer yr atgyfeiriadau/cyfeirio a wnaed - Ystod yr unigolion sy'n cael eu hatgyfeirio/cyfeirio - Gwelliant yn 'ansawdd' yr atgyfeiriadau/cyfeirio (goddrychol) <i>I'r unigolyn:</i> Gwell gwybodaeth a dealltwriaeth o: - Botensial/galluedd personol - Cyfleoedd hyfforddi a datblygiad personol - Cyfleoedd cyflogaeth yn lleol - Ffyrdd o oresgyn rhwystrau i gyflogaeth Yn arwain at newid cadarnhaol mewn perthynas â: - Hunangymhelliant - Hunanhyder	- Cynnydd yn y budd y mae unigolion yn ei gael o'r cymorth/hyfforddiant pellach (oherwydd mai dyma'r gefnogaeth gywir iddynt, gwell cymhelliant ar ran yr unigolyn, etc.) - Dangosyddion posibl yn cynnwys cynnydd yn nifer/cyfran y rhai sy'n cwblhau cyrsiau hyfforddi, etc.	<i>Yn cyfrannu at:</i> - Effaith economaidd gadarnhaol: - Mwy o symudiadau yn y farchnad lafur - Llai o ddiweithdra - Llai o dangyflogaeth - Llai o anweithgarwch economaidd - Mwy o gynhyrchiant - Effaith gadarnhaol ar lefelau llesiant - Cymorth cyflogadwyedd wedi'i ddarparu'n fwy effeithiol ac effeithlon, gan wella'r gost a budd

	O fewn rheolaeth Cymru'n Gweithio		Y tu hwnt i reolaeth Cymru'n Gweithio	
Mewnbynnau →	Allbynnau (gweithgareddau) →	Canlyniadau A →	Canlyniadau B →	Effeithiau
<i>Rhagdybiaethau, rhwystrau a galluogwyr</i> →	- Gallu darparu'r gwasanaeth fel y'i cynlluniwyd - Galw am y gwasanaethau/cymorth sy'n cael eu darparu - Ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth - Y gallu i gael mynediad ato	- Gallu darparu'r gwasanaeth fel y'i cynlluniwyd - Argaeledd yr hyfforddiant/cymorth sydd ei angen (i atgyfeirio iddynt/cyfeirio atynt) - Parodrwydd unigolion i gael eu hatgyfeirio/cyfeirio - Cyfyngiadau yng ngallu unigolion i gael eu hatgyfeirio/cyfeirio	Ansawdd yr hyfforddiant/cymorth (y mae Cymru'n Gweithio wedi atgyfeirio iddynt/cyfeirio atynt)	Swyddi/cyfleoedd priodol ar gael
<i>Dylanwadau allanol</i> →	Yr amodau economaidd ar y pryd Cyflyrau iechyd y boblogaeth yn gyffredinol (e.e. effaith pandemig COVID-19) Y strwythurau cymorth lles a diweithdra sydd ar waith (e.e. trefniadau budd-daliadau, cynlluniau cyflogadwyedd eraill, etc.)			

Gwerthusiad o Wasanaeth Cymru'n Gweithio: Adroddiad 1

Y Theori Newid, Effaith COVID-19, a'r Fframwaith Gwerthuso

Awdur(on): Endaf Griffiths, Calvin Lees, David Hagendyk, Dr Nina Sharp, Paula Gallagher, Sam Grunhut, Lovedeep Vaid



Adroddiad Ymchwil Llawn: Griffiths, E. Lees, C. Hagendyk, D. Sharp, N. Grunhut, S. (2021). Gwerthusiad o Wasanaeth Cymru'n Gweithio: Y Theori Newid, Effaith COVID-19, a'r Fframwaith Gwerthuso. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 3/2021.

Ar gael yn: <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-wasanaeth-cymrun-gweithio-2019-i-2022-adroddiad-1>

Awduron: Endaf Griffiths, Dr Tom Marshall, Paula Gallagher, Sam Grunhut (oll yn Wavehill), Duncan Melville, Paul Bivand, a Connor Stevens (oll yn y Sefydliad Dysgu a Gwaith)

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Hannah Davies, Uwch Swyddog Ymchwil
Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80391-297-4